**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-03-02(p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **23 Ionawr 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Camddefnyddio Sylweddau: Atafaelu Asedau** |

## Pwrpas

1. Darpara'r papur hwn wybodaeth am asedau a atafaelwyd fel a gytunwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Tachwedd.

## Crynodeb

2. Sefydlwyd y Gronfa Asedau Atafaeledig ym 1999-2000 i'r asedau hynny a gymerwyd oddi ar werthwyr cyffuriau yn y DU, allu cael eu sianelu er budd gweithgareddau gwrth-gyffuriau er mwyn cefnogi Strategaeth Gyffuriau'r DU. Fe'i rheolwyd gan Uned Cydlynu Gwrth-Gyffuriau'r DU (UKADCU) yn Swyddfa'r Cabinet.

3. Dros 3 blynedd dyrannwyd cyfanswm o £15 miliwn i'r Gronfa fel a ganlyn:-

£3 miliwn ym 1999-2000

£5 miliwn ym 2000-2001

£7 miliwn ym 2001-2002.

Roedd y Gronfa'n cael ei chynnal gan asedau a gymerwyd yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd nid oes manylion ar gael ynglyn â'r asedau hynny a gymerwyd yng Nghymru ac sydd wedi cyfrannu at y Gronfa. Gofynnwyd i Swyddfa'r Arglwydd Ganghellor am y manylion hynny, ac fe ddylent fod yn adroddiad nesaf y Gweinidog i'r Pwyllgor.

Penderfynodd Keith Hellawell, Cydlynydd Gwrth-Gyffuriau'r DU, y dylai'r Gronfa gefnogi'r grwpiau hynny sy'n anodd eu cyrraedd, fel pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched.

**Cefndir**

4. Defnyddiwyd y Gronfa i wahodd bidiau ar gyfer prosiectau sydd wedi eu hanelu at y grwpiau targed. Defnyddiwyd £3 miliwn i sefydlu Cronfa Ganolog Trin Cyffuriau er mwyn datblygu triniaethau dwys yn gyflym.

5. Gwahoddwyd bidiau oddi wrth 5 Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymru, ynghyd â Thimau Cyffuriau yn Lloegr. Cyflwynwyd nifer o fidiau gan dimau Cymru, a bu 3 chynllun yn llwyddiannus yng Nghymru. Fe'u nodir isod.

**Tîm Cyffuriau ac Alcohol Dyfed Powys**

Rhoddwyd £54,000 i ariannu gwasanaeth cwnsela mewn 12 fferyllfa wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal, iddynt allu cynnig gwasanaeth mwy preifat a thrwy hynny ymestyn y gwasanaethau presennol (goruchwylio Methadon, Cyfnewidfa Nodwyddau) a'u hehangu i gynnwys hybu iechyd yn gyffredinol. Canolbwyntiwyd ar bobl ifanc, sef mwyafrif y defnyddwyr/camddefnyddwyr, a thargedwyd y gwasanaethau at y rheini sy'n agored i niwed a'r rheini sy'n cael eu hallgáu.

**Tîm Cyffuriau ac Alcohol Bro Taf**

Rhoddwyd £50,000 i ddatblygu, cynhyrchu a dosbarthu deunydd atal camddefnyddio cyffuriau sydd wedi eu hanelu at bobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched.

Cynhyrchwyd fersiynau Punjabi, Gujarati, Bengali, Somali a Cantoneg o'r daflen "Drugs – Your Questions Answered".

**Tîm Cyffuriau ac Alcohol Morgannwg**

Rhoddwyd grant o £81,086 dros gyfnod o 3 blynedd (2000-2001 i 2002-2003). Mae hyn yn cyflogi Gweithiwr Therapi Creadigol rhan amser sy'n gweithio hefyd fel Gweithiwr Merched, er mwyn darparu gwasanaeth creadigol a rhyngweithiol ar gyfer grwpiau sy'n anodd cysylltu â hwy, fel pobl ifanc, pobl ifanc a eithriwyd neu sy'n absennol o'r ysgol, merched sy'n agored i niwed a merched sydd mewn perygl.

**Cronfa Ganolog Trin Cyffuriau**

6. Ym mis Mehefin 2000, sicrhaodd UKADCU fod £3 miliwn ar gael o’r Gronfa Asedau Atafaeledig i sefydlu Cronfa Ganolog Trin Cyffuriau er mwyn cyflymu’r broses o ddatblygu nifer fechan o driniaethau dwys. Roedd cyllid ar gael am 1 flwyddyn yn unig. Ceisiwyd bidiau gan Dimau Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru.

7. Yn 2001-02 bydd Timau Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn derbyn £77,987 gan y Ganolfan Ganolog Trin Cyffuriau ar gyfer Rhaglen Mynediad i Deuluoedd Pobl Ifanc a Rhagnodi. Bydd y Rhaglen yn cyflogi dwy nyrs amser llawn yn arbennig i weithio gyda phobl ifanc a’u teuluoedd, ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae’r prosiect yn targedu pobl ifanc sy’n defnyddio heroin ac a fyddai’n debygol o fod yn ddigartref heb y cymorth angenrheidiol a threfniadau rhagnodi arbenigol.

8. Noda un o’r meini prawf ar gyfer dethol mai’r Tîm Alcohol a Chyffuriau Lleol fyddai’n darparu cyllid ar ôl y 12 mis cyntaf.

9. Mae’r Gronfa Asedau Atafaeledig yn dirwyn i ben a bydd cronfa newydd, sef y Gronfa Asedau a Adenillwyd, yn cymryd ei lle. Ehangwyd cwmpas y meini prawf o brosiectau sy’n ymwneud â chyffuriau, i gynnwys cyllid ar gyfer mentrau gorfodi’r gyfraith ac ariannu partneriaethau lleihau trosedd.

10. Mae yna ddau gyfle i gyflwyno bidiau. 16 Ionawr 2002 oedd y dyddiad cau ar gyfer bidiau cynnar, a diwedd mis Mawrth 2002 fydd yr ail ddyddiad cau. Hysbyswyd y Timau Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru o’r trefniadau newydd hyn, ac fe’u gwahoddwyd i gyflwyno bidiau a fydd yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau gan y Pwyllgor Asedau a Adenillwyd. Mae swyddog o’r Cynulliad Cenedlaethol yn aelod o’r Pwyllgor a fydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion y Swyddfa Gartref.

**Gweithredu**

11. Gofynnir i’r Aelodau ei nodi er gwybodaeth.

**Cydymffurfio**

12. Papur i’r aelodau i’w nodi yw’r cyflwyniad hwn, ac nid oes goblygiadau o ran cydymffurfio nag o ran ariannu.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt** Peter Jones ar Est 5512 neu Stephen Craddock ar Est 5592